23 Awst 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd 2019-20

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Sut i ymateb

Gofynnir i chi ymateb erbyn 24 Medi 2018.

Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Neu eu llenwi'n electronig a'u hanfon drwy e-bost post@archwilio.cymru

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion uchod neu drwy ein ffonio ar 029 2032 0500.

Cyhoeddi ymatebion - cyfrinachedd a diogelu data

Ceir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd Ddeddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei thrin yn gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi esbonio wrthym pam eich bod o'r farn fod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol.

Os ceir cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y bydd modd cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn rhwymedigol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Prosesir data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data Os bydd y data hynny yn berthnasol i gais gan unigolyn arall am wybodaeth, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 yn yr amgylchiadau neilltuol dan sylw. Er na ellir rhagfarnu ynghylch unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigurau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu, tra bo enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu dal yn ôl.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2018

Cynnwys

Sut i ymateb	2
Cyhoeddi ymatebion - cyfrinachedd a diogelu data	3
Neges gan Archwilydd Cyffredinol Cymru	5
Ymgynghori	7
Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)	7
Graddfeydd Ffioedd ar gyfer Cyrff Llywodraeth Leol	8

Neges gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Annwyl bawb

Fel Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru, un o fy mhrif flaenoriaethau dros y misoedd nesaf yw cwrdd, gwrando ac ymgysylltu â chydweithwyr, partneriaid ac arweinwyr y sector cyhoeddus ledled Cymru. Rwy'n gobeithio, yn y mwyafrif helaeth o achosion, y bydd hyn yn golygu y cawn ni gwrdd yn unigol.

Yn y cyfamser, rwy'n gwahodd eich barn ar ein cynlluniau ar gyfer lefelau ffioedd yn 2019-20.

Fel Archwilydd Cyffredinol, rwy'n dymuno cefnogi gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â galluogi gwaith craffu democrataidd effeithiol ar ran pobl Cymru. Fy nod, felly, yw sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu dirnadaeth a chymorth i wasanaethau cyhoeddus sy'n helpu i ysgogi gwelliant. Byddwn ni hefyd yn gweithio'n gadarn ac yn annibynnol er mwyn rhoi i ddinasyddion Cymru a'u cynrychiolwyr y sicrwydd a'r dadansoddiad y maent yn eu mynnu.

Rwyf hefyd yn benderfynol ein bod ninnau yn cyflawni yr hyn yr ydym yn ei fynnu gan bobl eraill a'n bod yn gallu dangos bod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad atebol a gaiff ei redeg yn dda a'i barchu ac sy'n darparu gwerth am arian. Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflawni gostyngiadau o ryw 30% i gostau gweithredu mewn termau real, a byddaf yn parhau i geisio cyflawni arbedion a gostwng costau er mwyn lleihau gymaint â phosibl y ffioedd yr ydym yn eu codi. Mae rhagor o fanylion am sut yr ydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon o'r flwyddyn ddiwethaf a'n Hamcangyfrifon (cyllideb) ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Ffioedd ar gyfer 2019-20

Yn fras, caiff 68% o wariant y Swyddfa ei ariannu trwy'r ffioedd a godir ar y cyrff a gaiff eu harchwilio. Daw'r 32% sy'n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru trwy bleidlais y Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw ar ffioedd. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffioedd yr ydym yn eu codi **beidio â bod yn fwy** na chost lawn y gwaith y mae'r ffi yn berthnasol iddo.

Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail ein hamcangyfrif o wariant, yr amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau ar gyfer y gwaith archwilio a'r amcangyfrif o'r nifer o'r diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Mae'r Bwrdd a minnau yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol sy'n parhau ar wasanaethau cyhoeddus, felly yn sgil gostwng llawer o'n ffioedd yn 2018-19, **rydym yn ymrwymo i rewi ein ffioedd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf**[1]. A, thrwy barhau i adolygu ein dulliau archwilio a chymysgedd sgiliau ein tîm archwilio, ynghyd â chymhelliant parhaus y cyrff a gaiff eu harchwilio i gefnogi proses archwilio lyfn, byddwn yn ceisio cymaint â phosibl i leihau ffioedd yn fwy fyth pan fo hynny'n bosibl ar gyfer archwiliadau unigol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol o'n Hamcangyfrifon ar gyfer 2019-20, rydym yn bwriadu parhau i roi mynediad at y Fenter Twyll Genedlaethol **i'r holl gyfranogion yn ddi-dâl**. Rydym yn awyddus i siarad â chi os nad ydych yn cyfranogi ar hyn o bryd.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith mewn cyrff llywodraeth leol[2] ac ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol (er yn ddi-dâl), felly rwy'n cynnwys y graddfeydd hynny mewn atodiad, sy'n dangos dim newid yn 2018-19. Nid yw graddfeydd llywodraeth leol yn effeithio ar gyrff eraill a gaiff eu harchwilio.

Byddai'r Bwrdd a minnau yn gwerthfawrogi'n fawr iawn pe byddech yn rhoi eich barn ar y cynigion uchod drwy e-bost i post@archwilio.cymru erbyn diwedd dydd 24 Medi 2018. Byddwn wedyn yn ystyried eich adborth wrth i ni lunio ein Hamcangyfrifon a'n Cynllun Ffioedd ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn eu trafod â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ystod yr hydref. Mae'r Pwyllgor yn parhau i ystyried y mater o newidiadau buddiol i'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen i'n trefniadau costau, yn dilyn yr achos dros newid y gwnaethom ei gyhoeddi y llynedd.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych, ac rwy'n gobeithio cael cwrdd â chi yn fuan.

Yn gywir

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Yr unig sefyllfa pan all y ffioedd gynyddu fyddai pan fo materion lleol yn y gwaith archwilio penodol neu pan fo gwaith newydd yn cael ei wneud, a byddai hyn yn cael ei drafod yn llawn â Phwyllgor Archwilio a Risg y sefydliad.
2 Awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.

Ymgynghori

Mae'r adrannau isod yn esbonio sut mae ein ffioedd yn effeithio ar eich sefydliad chi, yn ôl y sector yr ydych yn perthyn iddo.

Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus Cymru i atal twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru bob dwy flynedd. Mae'r NFI hefyd yn weithredol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r NFI yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ddod o hyd i hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r NFI wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o ganfod ac atal achosion o dwyll a gordaliadau. Ers ei gychwyn ym 1996, mae ymarferion yr NFI wedi arwain at ganfod ac atal dros £30 miliwn o daliadau twyllodrus a gordaliadau yng Nghymru, ac £1.3 biliwn ar draws y DU.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal yr NFI drwy ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ers mis Ebrill 2016, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi defnyddio Cronfa Gyfunol Cymru i dalu'r gost o gynnal yr NFI, fel y cymeradwywyd drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru, gan sicrhau drwy hynny nad yw cyfranogwyr gwirfoddol yn gorfod talu ffi i gymryd rhan yn y fenter. Fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth, dangosir isod y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol.

Arddangosyn 1: Ffioedd yr NFI

Math o gorff	Ffi 2019-20 £
Awdurdod unedol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol.	Dim
Gall yr holl gyfranogwyr hefyd gael mynediad at Wirydd Ceisiadau'r NFI (App Check).	Dim

Bydd cyfranogwyr gorfodol hefyd yn cael mynediad at Wirydd Ceisiadau'r NFI yn ddi-dâl.

Graddfeydd Ffioedd ar gyfer Cyrff Llywodraeth Leol

Awdurdodau unedol

Arddangosyn 2: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2018-19

Gwariant gros £000,000	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
100	117	138	158	138
200	141	166	191	166
300	157	185	212	185
400	169	199	229	199
500	180	211	243	211
600	189	222	255	222
700	197	231	266	231
800	204	240	276	240
900	210	247	284	247
1,000	216	254	292	254
1,100	222	261	300	261
1,200	227	267	307	267

Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer 2019-20 am waith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

Pob awdurdod unedol	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	83	99	115	99

Arddangosyn 4: graff yn dangos cyfanswm y raddfa ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol



Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2018-19

Pob cronfa benswn	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	33	40	55	40

Awdurdodau tân ac achub

Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2018-19

Gwariant gros £000,000	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
20	34	40	46	40
40	41	49	56	49
60	46	54	62	54
80	50	58	67	58
100	53	62	71	62

Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer 2019-20 am waith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

Pob awdurdod tân ac achub	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	14	16	19	16

Arddangosyn 8: graff yn dangos cyfanswm y raddfa ffioedd ar gyfer archwilio awdurdodau tân ac achub



Awdurdodau parc cenedlaethol

Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2018-19

Gwariant gros £000,000	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
2	21	25	29	25
4	26	30	35	30
6	29	34	39	34
8	31	36	42	36
10	33	38	44	38

Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer 2019-20 am waith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Amrediad ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Isafswm	Canolrif	Uchafswm	
	14	17	19	17

Arddangosyn 11: graff yn dangos cyfanswm y raddfa ffioedd ar gyfer awdurdodau parc cenedlaethol



Comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

Bydd archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i'w bennu gan archwilwyr fydd sut i rannu'r ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu neilltuol, a hynny ar sail gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan y naill gorff a'r llall.

Arddangosyn 12: graddfa ffioedd ar gyfer archwiliad cyfrifon 2018-19

Gwariant gros cyfunol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid £000,000	**Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid £000**			**Canolrif y flwyddyn flaenorol £000**
	Isafswm	**Canolrif**	**Uchafswm**	
50	56	66	76	66
100	67	79	91	79
150	74	87	100	87
200	79	94	108	94
250	84	99	114	99
300	88	104	120	104
350	91	108	124	108

Arddangosyn 13: graff yn dangos cyfanswm y raddfa ffioedd ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid



Cynghorau tref a chymuned a chanddynt incwm neu wariant dan £2.5 miliwn

Ceir cyfundrefn archwilio sicrwydd gyfyngedig ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Ers 2016-17, rydym wedi codi am waith ar sail amser yn hytrach na defnyddio'r hen ddull o godi ffi yn unol â bandiau gwariant/incwm.

Mewn amgylchiadau lle bo'r archwilydd yn gofyn am dystiolaeth bellach er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys cyhoeddi adroddiad cysylltiedig dilynol er budd y cyhoedd, cynhelir profion ychwanegol er mwyn ymdrin â phryderon yr archwilydd.

Dylid pwysleisio y bydd y tâl gwirioneddol a godir gan unrhyw gorff neilltuol yn ddibynnol ar yr amser gwirioneddol a dreuliwyd yn gweithio ar yr archwiliad neilltuol hwnnw. At ddibenion dangosol yn unig y darperir yr amrediadau yn y tabl isod.

Arddangosyn 14: taliadau am archwilio cyfrifon 2018-19 cynghorau tref a chymuned ar sail amcangyfrif o amser

Incwm neu wariant blynyddol	**Tâl gwaelodlin dangosol**	**Ffi amrediad uchaf dangosol**
£0 – £5,000	£140	£280
£5,001 – £100,000	£160	£320
£100,001 – £500,000	£200	£380
£500,001 – £2,500,000	£240	£460

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru